

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Bangor / Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth sydd nesaf?	18
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	19
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist yn Uned 14, Rhodfa'r Gadeirlan, Bangor, Gwynedd, LL57 1ED, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 17 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod MyDentist, Bangor, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Roedd cofnodion cleifion o safon uchel
- Roedd systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn gofynion y rheoliadau

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ni nodwyd unrhyw welliannau

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae MyDentist, Bangor, yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bangor, Gwynedd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, dwy nyrs ddeintyddol, dau dderbynydd a rheolwr practis ymrwymedig.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod MyDentist, Bangor, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperid.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau. Derbyniwyd cymysgedd dda o holiaduron gan gleifion – oddi wrth gleifion cymharol newydd yn y practis (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion ers llai na dwy flynedd) yn ogystal ag oddi wrth gleifion hirdymor y practis (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion am fwy na dwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Methu meddwl am yr un peth i'w wella”

“Dim angen gwneud unrhyw welliannau”

Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a thafenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion 'dim ysmegu' yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros/derbynfa.

Dywedodd pob claf heblaw am dri a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gwybodaeth cleifion

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneid ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael.

Er i'r rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur ddweud bod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob tro cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd bron i hanner o'r cleifion wrthym nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar y wefan, ac roedd yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros. Roedd gan y practis lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion, ac fe'n hysbyswyd y bydd y daflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Cyfathrebu'n effeithiol

Mae rhai aelodau staff sy'n gweithio yn y practis yn gallu cyfathrebu gyda chleifion yn ddwyieithog. Roedd pump o'r 17 o gleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain i fod yn siaradwyr Cymraeg. Pan ofynnwyd iddynt pa mor

aml roeddent yn gallu siarad â staff yn Gymraeg pan oeddent am wneud hynny, dywedodd tri eu bod yn gallu bob amser a dywedodd dau byth.

Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn yr iaith o'u dewis bob amser.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau'r tu allan i oriau pe bai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd ar neges y peiriant ateb, ac roedd wedi'i nodi yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion, a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o gleifion eu bod yn cael eu cynnwys i'r graddau yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth unigol. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaeth a'r opsiynau'n cael eu trafod gyda'r cleifion.

Roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad. Roedd mwyafrif helaeth o'r cleifion a lenwodd holiadur yn cadarnhau bod eu deintydd yn eu holi ynglŷn â'u hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis.

Lleolir y practis ar y llawr daear, ac mae'n gwbl hygyrch ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd. Roedd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu cael mynediad

at y dderbynfa, y man aros, y cyfleusterau toiled a phob un o'r ystafelloedd triniaeth.

Gwranddo a dysgu o adborth

Dyweddod dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer triniaeth breifat a thriniaeth y GIG. Roedd y gweithdrefnau i gleifion ar gyfer gwneud cwyn neu fynegi pryder yn cael eu dangos yn glir yn y dderbynfa a'r man aros. Roedd manylion hefyd yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Dim ond wyth o'r 17 claf a gwblhaodd holiadur a ddywedodd eu bod yn cael eu holi am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis o gasglu adborth gan y cleifion - rhywbeth mae'r practis yn ei gyflawni trwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa, ynghyd â blwch sylwadau. Gwnaeth y practis hefyd ein hysbysu bod cleifion yn derbyn neges destun ar ôl pob apwyntiad, sy'n eu galluogi i roi adborth. Mae modd hefyd i gleifion roi adborth drwy wefan y practis. Cyhoeddir manylion dadansoddiad yr adborth ar wefan y practis.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Canfuom fod gofal deintyddol diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn hynod lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion heblaw am un a gwblhaodd holiadur yn teimlo, yn eu barn nhw, fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un tŷ bach deuryw at ddefnydd cleifion a chyfleusterau gwrywaidd a benywaidd ar gyfer staff. Roedd arwyddion ar gyfer yr holl gyfleusterau ac roeddent i'w gweld yn lân iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys i'w gweld yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o daflenni data yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith. Roedd y taflenni data ac asesiadau risg wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, ac roeddent hefyd yn cynnwys llofnodion y staff, a oedd yn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir a'i fod yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, wedi'i drefnu a'i gyfarparu'n dda, ac yn rhydd rhag annibendod. Dangosodd staff y broses ddadheintio inni a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau bob chwe mis, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod y risg o groes-heintio mor isel ag y bo modd er mwyn diogelu cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd fod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio'n unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis, ac roeddent yn cael eu cludo rhwng ystafelloedd triniaeth mewn blychau plastig gorchuddiedig sydd â chodau lliw arnynt.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ardderchog ar waith yn y practis yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Mae'r practis hefyd yn ymarfer sefyllfaoedd brys yn rheolaidd gyda staff, sydd yn arfer da. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol ac roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf dynodedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu cadw'n ddiogel mewn lleoliad oedd yn caniatáu iddynt fod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn

llewygu/cwmpo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys bob dydd i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwnaethom ddod o hyd i rwyg bach iawn ar ochr y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth un, a gwnaethom dynnu sylw'r practis at y mater hwn. Cawsom sicrwydd ar lafar y byddai'r gadair yn cael ei hatgyweirio cyn gynted â phosibl, a gwnaeth y practis roi trefniadau ar waith ar unwaith.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal asesiadau risg ac archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd o ddelweddau pelydr-X.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau gan

y practis, megis rhagnodi gwrthfotigau, hylendid dwylo, rheoli gwastraff, croesheintio, atgyfeiriadau, pelydrau-X a chofnodion clinigol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd ni fod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion. Fe'n hysbyswyd hefyd fod gan y practis gynlluniau ar waith i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid gyda'i chwaer-bractis, a bydd hyn yn cyfrannu'n bellach at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod o'r holl adolygiadau clinigol.

Cawsom ein hysbysu bod gan y practis ei ddull datblygu tîm ei hun, sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio ac yn galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei gadw'n rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn gynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cynnal cofnodion clinigol i safon uchel ar y cyfan. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod eitemau a oedd yn ymwneud â gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a, lle bo'n ofynnol, o gynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion. Roedd yr holl ddeintyddion yn cofnodi bod sgrinio am ganser yn cael ei gynnal ac y rhoddid cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu.

Canfuom nad oedd rhif swp a dyddiad dod i ben yr anesthetig lleol a ddefnyddir yn cael eu cofnodi ar y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Fodd bynnag, pan wnaethom dynnu sylw staff yn y practis at y mater hwn, fe'n hysbyswyd bod trefniadau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith i gofnodi'r rhif swp a'r dyddiad dod i ben yn dilyn archwiliad diweddar o gofnodion cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd hi'n effeithiol ac yn gymwys yn ei rôl. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers rhywfaint o amser, roedd cydberthynas dda rhyngddynt. Dywedasant wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant; roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC yn cael eu harddangos mewn lle amlwg fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, roedd un dystysgrif yn cynnwys y manylion anghywir ar gyfer AGIC. Gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r Tîm Cofrestru yn AGIC er mwyn iddynt gyflwyno tystysgrifau newydd.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad adolygu a/neu yn cael eu rheoli fesul fersiwn, ac yn cynnwys llofnodion y staff, a oedd yn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, ac sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal mewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: My Dentist, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: My Dentist, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Nid yw'n ofynnol i'r practis gwblhau cynllun gwella.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Amherthnasol				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Amherthnasol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: